OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1251 (Cy. 296)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Rhagfyr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 79(2)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(m) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "GCC" ("*SCW*") yw Gofal Cymdeithasol Cymru(**2**).

### Personau sydd i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol

**3.** At ddibenion swyddogaethau GCC o dan adrannau 68(2), 112, 114 a 116 o'r Ddeddf yn unig, mae personau o unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau ym mharagraffau (a) i (l) o adran 79(3) o'r Ddeddf i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) Ailenwyd Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru gan adran 67(3) o'r Ddeddf.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2016

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 79(2)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu bod personau penodol i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai'r personau sydd i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol yw'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau (a) i (l) o adran 79(3) o'r Ddeddf. Mae'r rheini yn cynnwys personau sydd wedi eu dynodi'n unigolion cyfrifol gan ddarparwyr gwasanaethau; personau sy'n ymgymryd â gwaith at ddibenion swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (neu â'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n debyg i'r rheini a ddarperir wrth arfer y swyddogaethau hynny); personau sy'n ymgymryd â darparu gofal a chymorth personol nad ydynt wedi eu rheoleiddio i unrhyw berson; personau sydd wedi eu cofrestru fel gwarchodwyr plant neu fel darparwyr gofal dydd i blant; personau sy'n rheoli ymgymeriad neu sydd wedi eu cyflogi mewn ymgymeriad sy'n cynnal busnes cyflogi neu asiantaeth gyflogi mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o ofal a chymorth personol i unrhyw berson yng Nghymru; myfyrwyr gwaith cymdeithasol penodol ac arolygwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol penodedig.

Mae'r personau a grybwyllir uchod wedi eu pennu'n weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") o dan adrannau 68(2), 112, 114 a 116 o'r Ddeddf. O dan adran 68(2) o'r Ddeddf, rhaid i GCC arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar hybu a chynnal safonau uchel yn y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth, safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol, safonau uchel o ran hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol a hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae adran 112 o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i GCC lunio a chyhoeddi codau ymarfer sy'n pennu safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol ac unrhyw bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae adran 114 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i GCC i wneud rheolau i gymeradwyo cyrsiau penodol ac mae adran 116 yn nodi swyddogaethau eraill GCC mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.